
# Caniatâd i rannu Crynodeb o Gofnod Gofal a gwybodaeth ychwanegol



Mae gan eich doctor eich Crynodeb o Gofnod Gofal gyda gwybodaeth am eich iechyd, y meddyginiaethau rydych chi'n cymryd
a'r meddyginiaethau na ddylech chi eu cymryd gan eu bod yn eich gwneud chi'n sâl (adwaith alergaidd).

Efallai y bydd doctor neu nyrs sydd ddim yn eich adnabod yn dda iawn yn gofyn am gael gweld eich Crynodeb o Gofnod Gofal. Bydd hyn yn eu helpu nhw i'ch helpu chi.



Dim ond pobl sy'n edrych ar ôl eich iechyd, fel doctor neu nyrs, sy'n gallu gweld eich Crynodeb o Gofnod Gofal.

Gall doctor ychwanegu gwybodaeth bwysig at eich cofnod - fel salwch a sut y cawsoch chi'ch helpu (meddyginiaeth, therapi neu driniaeth). Gall gynnwys gwybodaeth am y ffordd rydych chi'n hoffi cael eich cefnogi a gan bwy, a gall helpu i wneud yn siŵr bod y gefnogaeth hon yn ei lle ar gyfer apwyntiadau yn y dyfodol.

Mae'r Crynodeb o Gofnod Gofal, os caiff ei ddiweddaru, yn gallu helpu doctoriaid a nyrsys i'ch trin chi'n dda - hyd yn oed os nad ydyn nhw wedi'ch helpu chi o'r blaen.



Os hoffech chi gynnwys gwybodaeth ychwanegol neu newydd yn eich Crynodeb o Gofnod Gofal, oherwydd bod eich anghenion iechyd a chefnogi wedi newid, gallwch roi gwybod i'ch doctor.

Os nad oes arnoch chi eisiau darn o wybodaeth ar eich Crynodeb o Gofnod Gofal gallwch ofyn i'ch doctor ei ddileu.

https://digital.nhs.uk/binaries/content/assets/legacy/pdf/p/6/scr_ai_easy_read_patient_leaflet.pdf

| Ydych chi'n rhoi caniatâd i ni rannu'r wybodaeth? | Ydw ✓ | Nac Ydw ✗ |
|---|---|---|
| 1. Caniatâd i rannu cofnod electronig? | | |
| 2. Caniatâd i rannu'r Crynodeb o Gofnod Gofal gyda gwybodaeth ychwanegol? | | |
| 2. Caniatâd i rannu data gyda gweithiwr proffesiynol arall (trydydd parti penodol)? | | |